Rebecca Evans AC
Y Gweinidog dros Gyllid a Threfnydd
Llywodraeth Cymru

14 Ionawr 2019

Annwyl Rebecca

**Craffu ar reoliadau sy'n deillio o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018**

Cyfeiriaf at y llythyr gan gyn Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip, dyddiedig 10 Rhagfyr 2018.

Diolch am ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf mewn ymateb i'r cwestiynau a godwyd yn ein llythyr dyddiedig 15 Tachwedd 2018. Yn y llythyr hwnnw, nodwyd hefyd y byddai o gymorth pe bai datganiadau ysgrifenedig yn nodi'r darpariaethau perthnasol y rhoddir cydsyniad iddynt.

Mae ymateb Llywodraeth Cymru yn nodi bod Gweinidogion Cymru yn ystyried ac yn cydsynio i'r Offeryn Statudol yn ei gyfanrwydd, yn hytrach na'n ystyried dim ond y meysydd datganoledig. Er hynny, nid ydym yn deall pam na all y datganiad ysgrifenedig roi manylion y darpariaethau penodol y rhoddir cydsyniad iddynt, hy pa rannau o bob Offeryn Statudol sy'n gwneud darpariaeth mewn meysydd datganoledig.

Gan hynny, byddem yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau bod y darpariaethau penodol y rhoddir cydsyniad iddynt yn cael eu nodi cyn i Weinidogion Cymru benderfynu rhoi'r cydsyniad hwnnw i Weinidogion y DU. Yn ein barn ni, byddai hyn yn angenrheidiol i sicrhau y cydymffurfir â'r cytundeb rhynglywodraethol sy'n gysylltiedig â defnyddio pwerau cydredol.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMCD@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMCD
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCLA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCLA
0300 200 6565

Mae'r mater hwn wedi dod yn bwysicach fyth yn dilyn ein cyfarfod yr wythnos hon, pan nodwyd bod penderfyniad Gweinidogion Cymru i roi cydsyniad i Reoliadau Hawliau Bridwyr Planhigion (Diwygio etc) (Ymadael â'r UE) 2018 yn golygu eu bod yn caniatáu i Lywodraeth y DU wneud offeryn statudol o dan weithdrefn y penderfyniad negyddol sy'n cyfyngu ar gymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, heb i'r Cynulliad gael unrhyw ran yn y broses.

Byddem hefyd yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau, fel rhan o'ch proses o wneud penderfyniadau ynghylch rhoi cydsyniad, a yw Llywodraeth Cymru yn darparu deunydd i'w gynnwys mewn memorandwm esboniadol yn ymwneud ag Offerynnau Statudol cydredol y bydd Senedd y DU yn craffu arnynt.

Byddem hefyd yn falch o wybod y rhesymau pam na fydd Llywodraeth Cymru yn gwneud unrhyw welliannau i gyfraith yr UE sy’n uniongyrchol berthnasol. A yw’n gywir dweud nad oedd Bil yr UE (Ymadael) gwreiddiol yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio cyfraith yr UE sy’n uniongyrchol berthnasol, a bod pŵer o'r fath wedi’i gynnwys wedyn ar gais Llywodraeth Cymru?

Yn olaf, o ran yr angen i ddeddfwriaeth Cymru aros "yn aml" i ddeddfwriaeth y DU gael ei gwneud yn gyntaf, a allwch chi gadarnhau faint o Offerynnau Statudol Llywodraeth Cymru nad ydynt wedi bod yn ddibynnol ar i ddeddfwriaeth y DU gael ei gwneud yn gyntaf, a'r rheswm dros oedi mewn perthynas â’r Offerynnau Statudol hyn?

Yn gywir

**Mick Antoniw**
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.